Gwobrau Tiwtoriaid

Ysbrydoli!™ Inspire!™

Tutor Awards 2027

Gwobrau Ysbrydoli! Tiwtoriaid Dogfen canllawiau

Dyddiad cau ar gyfer enwebiadau: 15 Ionawr 2027

Tu ôl i oedolion sy'n ddysgwyr llwyddiannus mae tiwtoriaid a mentoriaid sy'n ysbrydoli.













D&G SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH LEARNING AND WORK INSTITUTE L&W

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Am y Gwobrau Ysbrydoli! Tiwtoriaid

Mae'r Gwobrau Ysbrydoli! Tiwtoriaid blynyddol yn dathlu gwaith gwerthfawr tiwtoriaid a mentoriaid wrth gefnogi dysgu gydol oes ar draws Cymru.

Maent yn cydnabod ymdrech ac ymroddiad enfawr tiwtoriaid a mentoriaid i helpu oedolion sy'n ddysgwyr i gyflawni eu huchelgais, oherwydd fod mentoriaid a thiwtoriaid sy'n ysbrydoli tu ôl i oedolion sy'n ddysgwyr llwyddiannus.

Gwahoddwn enwebiadau ar ran unigolion eithriadol y mae eu hymroddiad, gwybodaeth a sgiliau addysgu wedi rhoi'r hyder a'r egni i oedolion ymwneud â dysgu a thrawsnewid eu bywydau.

Caiff y Gwobrau Ysbrydoli! Tiwtoriaid eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru ac Agored Cymru.

Am beth ydyn ni'n edrych mewn Tiwtor neu Fentor?

Rydym yn edrych am diwtoriaid a mentoriaid eithriadol yn eu maes a all ddangos eu heffaith drawsnewidiol a pharhaus ar fywydau pobl eraill, i fynd yr ail filltir yn eu ròl i gefnogi oedolion sy'n ddysgwyr ar eu taith addysgol, llwybrau gyrfa a'u llesiant cyffredinol.

Gellir cyflwyno enwebiadau ar gyfer unigolion neu dimau. Dylai enwebiadau ar gyfer tîm gydnabod tiwtoriaid neu fentoriaid sy'n cydweithio o fewn yr un adran, tîm a sefydliad a ac all ddangos ymroddiad ar y cyd i gefnogi oedolion sy'n ddysgwyr a sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

Dylai enwebiadau ddangos llwyddiant yn o leiaf ddau o'r meysydd canlynol:

- Datblygu'r cwricwlwm, creu adnoddau a deunyddiau newydd.
- Goresgyn amgylchiadau personol a/neu weithio mewn amgylchiadau heriol.
- Cyfrannu at ehangu mynediad ac adeiladu llwybrau i gyfleoedd dysgu.
- Ysbrydoli dysgwyr i symud ymlaen i gyrsiau neu gyfleoedd eraill i ddysgu neu bontio i gyflogaeth
- Creu partneriaethau neu lwybrau newydd i ddysgu.

- Datblygu ffyrdd blaengar o gefnogi addysgu, chwalu rhwystrau neu fentora dysgwyr.

Tystiolaeth o effaith

Dylai eich datganiadau ddangos sut y cafodd y tiwtor/mentor effaith ar fywydau eu myfyrwyr.

Croesawn ddatganiadau cefnogaeth gan ddysgwyr fel rhan o'r enwebiad.

Gallai eich ffocws fod ar:
- Cynnydd, cyrhaeddiad a chyflawniad.
- Tystiolaeth ar effaith iechyd a llesiant ar ddysgwyr.
- Disgrifio sut y defnyddiodd dysgwyr y sgiliau y maent wedi eu datblygu i gyfrannu at fywyd teulu / cymuned / cymdeithas ddinesig / gweithle neu i drawsnewid eu bywydau eu hunain
- Geirda ychwanegol gan fyfyrwyr, dysgwyr a chydweithwyr.
- Mae croeso hefyd i wybodaeth gefnogi / lluniau / llythyr am y tiwtor, anfonwch nhw atom drwy e-bost os gwelwch yn dda.

Croesawn enwebiadau ar gyfer tiwtoriaid a mentoriaid sy'n gweithio ar draws y sector addysg drydyddol yng Nghymru.

- Lleoliad Addysg Uwch
- Lleoliad Addysg Bellach
- Lleoliad gweithle
- Cymraeg i Oedolion
- Lleoliad Cymunedol
- Lleoliad arall

NEWYDD: Gwobr Dewis Dysgwyr

Nodyn: Mae'r Wobr Dewis Dysgwyr yn dathlu tiwtor neu fentor rhagorol a wnaeth wahaniaeth ystyrlon i'r profiad dysgu a llwyddiannau oedolion sy'n ddysgwyr. Gan fod hon yn wobr a gaiff ei harwain gan ddysgwyr, dylid defnyddio ffurflen a dogfen canllawiau ar wahân. Mae'r ffurflen enwebu a chanllawiau ar gyfer y Wobr Dysgwyr ar gael yma.









Edrychwch ar straeon enillwyr gwobrau y gorffennol:

Enillwyr Gwobrau Ysbrydoli! Tiwtoriaid 2026
Enillwyr Gwobrau Ysbrydoli! Tiwtoriaid 2025
Enillwyr Gwobrau Ysbrydoli! Tiwtoriaid 2024

Gofynnir i chi adolygu canllawiau a'r broses enwebu cyn cyflwyno os gwelwch yn dda:

- Mae enwebiadau yn rhad ac am ddim ar gyfer tiwtoriaid a mentoriaid sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru.
- Gallwch enwebu tiwtor neu fentor os ydych yn ddarparydd neu gyflogwr, cydweithiwr, tiwtor arall neu aelod o'r gymuned.
- Os ydych yn aelod o'r gymuned, mae'n rhaid i chi gael datganiad yn cefnogi y sawl a enwebwch gan rywun sy'n eu hadnabod yn rhinwedd swydd broffesiynol.
- Gellir ail-enwebu tiwtor neu fentor os ydynt wedi cael mwy o lwyddiant ers yr enwebiad blaenorol.
- Mae'n rhaid i bawb a enwebir wybod eu bod yn cael eu henwebu a dylent fod yn fodlon i rannu eu straeon gyda'r cyfryngau.
- Bydd pawb a enwebir yn derbyn tystysgrif llwyddiant. Anfonir hyn at y person a nodir ar y ffurflen. Gofynnir i chi sicrhau y caiff enw'r sawl a enwebir ei sillafu yn gywir gan mai dyma'r enw fydd yn ymddangos ar y dystysgrif.
- Caiff eich cais ei farnu ar yr wybodaeth a roddwch yn y ffurflen enwebu felly gofynnir i chi wneud yn siŵr eich bod yn rhoi sylw i'r meysydd a amlygir yn y canllawiau.

Dyddiad cau ar gyfer enwebiadau:

Dydd Gwener 15 Ionawr 2027

Dylid nodi na chaiff y dyddiad cau ei ymestyn. Gofynnir i chi sicrhau y caiff enwebiadau eu cwblhau a'u cyflwyno erbyn y dyddiad cau.

Os ydych angen unrhyw gymorth gyda'ch ffurflen enwebu,

cysylltwch os gwelwch yn dda ag: inspire@learningandwork.org.uk.

Sut mae'r broses ddethol yn gweithio?

- Bydd panel o feirniaid annibynnol yn cynorthwyo i ddethol enillwyr gwobrau.
- Caiff pob enillydd gwobr eu hysbysu gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn yr wythnos yn dechrau 22 Chwefror 2027. Bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn anfon e-bost atoch os oes unrhyw newidiadau i amserlen y gwobrau.

Sut i gyflwyno eich enwebiad:

Ar ôl ei llenwi, gofynnir i chi anfon eich ffurflen enwebu a gwybodaeth gefnogi drwy e-bost at: inspire@learningandwork.org.uk.

D&G SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH LEARNING AND WORK INSTITUTE L&W

Agored Cymru

Llywodraeth Cymru Welsh Government